


# Croeso

Croeso! Mae'r Cyd-gadeirydd yn chwarae rhan bwysig ym **Mhartneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg**.



Mae'r Cyd-gadeirydd yn cefnogi grŵp sy'n gwneud iechyd a gofal cymdeithasol yn well i **bobl ag anableddau dysgu.**




Mae'r Cyd-gadeirydd yn helpu pobl ar draws siroedd **Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf** a **Merthyr Tudful**.




# Am bwy ydyn ni'n chwilio i fod yn Gyd-gadeirydd?



Rhaid eich bod chi'n **oedolyn ag anabledd dysgu** sy'n byw yn siroedd Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf neu Ferthyr Tudful.



Rhaid bod gennych brofiad o gael eich cefnogi gan wasanaethau **iechyd a gofal cymdeithasol**.




Rhaid bod gennych sefydliad sy'n barod i'ch **cyflogi a'ch cefnogi chi** i fod yn Gyd-gadeirydd.



Dylech chi fod yn **hunan-eiriolwr** da. Mae hyn yn golygu eich bod chi'n hyderus i godi eich llais am faterion pwysig yn eich cymuned.



Dylech chi **ddangos parch** ac ystyried anghenion a barn pobl eraill.



Dylech chi fod yn gwybod am **bynciau** sy'n bwysig i bobl eraill ag anableddau dysgu.



Dylech chi fod yn **ymroddedig** ac eisiau bod yn Gadeirydd.



# Beth yw'r Grŵp Llywio Anableddau Dysgu?



Chi fydd Cyd-gadeirydd y **Grŵp Llywio Anableddau Dysgu.** Mae'r grŵp hwn yn rhan o **Raglen Anableddau Dysgu'r** Bartneriaeth Ranbarthol.




Y grŵp llywio sy'n penderfynu **pa waith sy'n bwysig** i helpu pobl ag anableddau dysgu yn ein rhanbarth ni.





Mae'r grŵp llywio yn dweud wrth bobl **pa waith** sydd angen iddyn nhw ei wneud, a sicrhau ei fod yn **digwydd**




Mae'r grŵp llywio'n cwrdd **bob 2 fis.**



Fel arfer bydd y grŵp llywio'n cwrdd **ar lein** dros Microsoft Teams, ond byddwn ni'n ceisio cwrdd **wyneb yn wyneb** unwaith y flwyddyn.



Mae'r grŵp llywio'n rheoli grwpiau eraill o'r enw **llif gwaith.**



Mae llif gwaith yn gwella rhannau gwahanol o fywydau pobl, fel eu **cartref, iechyd a chymuned**




# Beth mae'r Cyd-gadeirydd yn ei wneud?



Fel Cyd-gadeirydd, rydych chi'n **arweinydd.**
Mae arweinydd yn **ysbrydoli** pobl ac yn helpu pobl i **gyflawni nodau.**



Eich swydd chi yw helpu i **arwain** y grŵp llywio a gwneud yn siŵr ei fod yn **gwneud ei waith yn dda.**




Mae **3 rhan** i gynnal y grŵp llywio'n dda:

1. **Paratoi am y cyfarfod**
2. **Cadeirio'r cyfarfod**
3. **Gwneud yn siŵr fod pethau'n digwydd ar ôl y cyfarfod**



# Paratoi ar gyfer Cyfarfodydd



Bydd angen i chi weithio gyda'r Cadeirydd a'r rheolwr rhaglen anableddau dysgu i **baratoi ac ymarfer** cyn pob cyfarfod grŵp llywio



Mae'r Cadeirydd a'r rheolwr rhaglen yn gwneud yn siŵr fod gennych chi'n **wybodaeth gywir** er mwyn **gofyn cwestiynau a gwneud penderfyniadau** yn ystod cyfarfodydd.




Bydd angen i chi ysgrifennu **agenda** ar gyfer pob cyfarfod grŵp llywio hefyd.

Mae agenda'n dweud wrth bawb **beth fydd yn cael ei drafod** yn y cyfarfod.



# Cadeirio Cyfarfodydd



Unwaith y byddwch chi'n barod, byddwch chi'n helpu i **arwain** cyfarfod y grŵp llywio. Bydd y Cadeirydd, y rheolwr rhaglen a'r staff cefnogi yno i'ch helpu chi.



Yn ystod y cyfarfod, mae angen i chi sicrhau fod pawb yn **cael eu trin yn dda, yn cael eu clywed** ac yn gallu **dweud eu dweud.**



Bydd angen i chi **wrando'n ofalus,** helpu pawb i **wneud penderfyniadau,** a gwneud yn siŵr fod pawb yn **dilyn yr agenda.**




# Gofalu am bethau ar ôl y cyfarfod



Ar ôl y cyfarfod, bydd y Cadeirydd, y rheolwr rhaglen a'ch staff cefnogi chi yn eich helpu i **ddeall** popeth gafodd ei **ddweud a'i gytuno.**



Weithiau, byddwch chi'n cytuno ar **weithredoedd** mewn cyfarfodydd grŵp llywio, ac fe all fod **gwaith ychwanegol** i chi ei wneud cyn y cyfarfod nesaf.




Bydd y rheolwr rhaglen a'ch staff cefnogi chi yn eich helpu i **wneud eich gweithredoedd a threfnu amser cynllunio** ar gyfer cyfarfod nesaf y grŵp llywio.



# Eich cefnogaeth



Byddwch chi’n cael **llawer o gefnogaeth** i’ch helpu i wneud eich swydd yn dda.



Byddwch chi’n cael eich cyflogi a’ch cefnogi gan eich sefydliad, a fydd yn eich helpu i **gyfathrebu a deall.**



Bydd y **Rheolwr Rhaglen Anableddau Dysgu** hefyd yn eich helpu i **ddeall a pharatoi** ar gyfer cyfarfodydd




# Eich cyflog



Bydd angen i chi weithio o leiaf **2 awr yr wythnos.**




Bydd eich sefydliad yn gosod eich **cyflog** ac yn gwneud yn siŵr eich bod chi'n cael eich talu.




# Sut ydw i'n gwneud cais i fod yn Gyd-gadeirydd?



Os hoffech chi fod yn Gadeirydd, mae angen i chi lenwi ffurflen **Mynegiant o Ddiddordeb**.



Mae Mynegiant o Ddiddordeb yn dweud wrthym amdanoch **chi,** eich **sgiliau** a **pham** hoffech chi fod yn Gyd-gadeirydd.




I gael mwy o wybodaeth, gallwch ddod o hyd i ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb yn sownd wrth **gefn** y ddogfen hon.